Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

**Dyddiad:** **16 Chwefror 2009**

**Gan:** **Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

---

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddais ddatganiad am yr oedi wrth dalu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg i rai myfyrwyr. Yr wyf bellach yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd.

Yr wyf wedi cael gwybod bod yr holl geisiadau a oedd wedi ôl-gronni wedi'u clirio erbyn 26 Tachwedd a bod yr holl ohebiaeth gysylltiedig wedi'i chlirio erbyn 5 Rhagfyr, a hynny ar ôl i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr fynd ati i roi mesurau wrth gefn ar waith.

Yr wyf wedi bod yn bryderus iawn am yr effaith y mae'r oedi wedi'i chael ar fyfyrwyr a'u teuluoedd ac yr wyf wedi bod mewn cysylltiad agos a chyson â fy swyddogion ynghylch y mater hwn.

Yr wyf yn awyddus i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o gylch ceisiadau 2008/09. Ar ôl i mi wneud cais i'r perwyl hwnnw, mae swyddogion y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi cynnal adolygiad er mwyn gweld sut y gellir gwella'r prosesau sydd yn eu lle ar hyn o bryd. Cytunwyd y byddai'r gwelliannau a ganlyn yn cael eu cyflwyno o ddechrau 2009/10 ymlaen:

a. Ni fydd angen llenwi ffurflen tystysgrif geni/mabwysiadu o 2009/10 ymlaen. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at lawer yn llai o geisiadau sy'n anghyflawn neu geisiadau lle mae tystiolaeth wedi'i hepgor;
b. Yn 2009/10, bydd ymgeiswyr yn gallu cyflwyno eu tystysgrifau geni er mwyn cadarnhau pwy ydynt (er y byddant hefyd yn gallu cyflwyno pasbort fel tystiolaeth os bydd yn well ganddynt wneud hynny). Bydd hyn yn helpu gyda'r gwaith prosesu ac yn fodd i leihau'r pryderon sydd gan fyfyrwyr am anfon eu pasbort drwy'r post ac am ei gael yn ôl mewn da bryd os ydynt am ei ddefnyddio;

c. Yn ystod yr adegau prysuraf, bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cyflogi staff ychwanegol sydd wedi cael eu gwirio at ddibenion diogelwch;
d. Bydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn dechrau prosesu ceisiadau dair wythnos yn gynt nag yn ystod 2008/09;
e. Caiff ffurflen adnewyddu cais ei hanfon at fyfyrwyr a fydd yn gwneud cais am gymorth yn ystod eu hail flwyddyn a chânt eu hannog i anfon y ffurflen yn ôl cyn diwedd tymor yr haf.